

CYNGOR BRO MORGANNWG
GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIO) (RHIF 9) 2022

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn diwygio a yn rhoi'r cyfyngiadau parcio a nodir yn yr Atodlenni isod ar waith.
2. Gellir gweld manylion llawn y cynigion, gan gynnwys copi o'r Gorchymyn arfaethedig a Chynlluniau Rhif T/22/33/ON ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk/legalnotices ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a allai fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF951) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **dydd Gwener 19 Awst 2022** ac mae'n rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

Ychwanegu atodlen AJ64 at y map

Cynnig Gwahardd Aros a Llwytho, a Dad-lwytho ar Unrhyw Adeg

Rhose Way, y Rhws

Ar yr ochr orllewinol, o'r gyffordd ddeheuol â Greenmeadow Way i gyfeiriad y gogledd am 17.1m.

Ar yr ochr ddeheuol, o bwynt 58.5m i'r gorllewin o'r gyffordd â chornel ogledd-orllewin allanfa maes parcio'r ysgol i gyfeiriad y gorllewin am 21.5m.

Ar ochr y de-orllewin, o'r gyffordd â chornel de-ddwyrain y fynedfa i faes parcio'r ysgol yn y de-ddwyrain ac yna i gyfeiriad y gogledd-orllewin am 79.3m.

Ar yr ochr ddwyreiniol o bwynt 20.8m i'r de o'r gyffordd â Greenmeadow Way i gyfeiriad y de ac yna i'r dwyrain am 39.2m.

Greenmeadow Way

Ar yr ochr ogledd-orllewinol, o'r gyffordd â Rhose Way i gyfeiriad y de-orllewin am 12.2m.

Ar ochr y de-ddwyrain, o'r gyffordd â Rhose Way i gyfeiriad y de-orllewin am 13.2m.

Cynnig Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho o ddydd Llun i ddydd Gwener o 8am tan 9.30am ac o 2.30pm tan 4pm.

Rhose Way, y Rhws

Ar yr ochr ddwyreiniol, o'r gyffordd â Greenmeadow Way i gyfeiriad y de am 20.8m

Ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol, o bwynt 2m i'r gogledd-orllewin o wal flaen eiddo rhif 263-271 mewn cyfeiriad cyffredinol i'r gogledd-orllewin ac yna i gyfeiriad y gorllewin am 93.2m.

Ar yr ochr dde-orllewinol, o'r gyffordd â chornel ogledd-orllewinol mynedfa maes parcio'r ysgol i gyfeiriad y gogledd-orllewin am 41.4m.

Ar yr ochr ddeheuol, o bwynt 43.9m i'r gorllewin o'r gyffordd â chornel ogledd-orllewinol allanfa maes parcio'r ysgol i gyfeiriad y gorllewin am 14.9m.

Dyddiedig 28 Gorffennaf 2022.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg, Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA